

PERRYN, Syr RICHARD (1723 - 1803), barnwr

Enw: Richard Perryn
Dyddiad geni: 1723
Dyddiad marw: 1803
Rhiant: Benjamin Perryn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: barnwr
Maes gweithgaredd: Cyfraith
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn nhre'r Fflint yn 1723 (bedyddiwyd 16 Awst), yn fab i Benjamin Perryn, masnachwr yn y dref. O ysgol Rhuthyn (**Thomas, A History of the Diocese of St. Asaph**, ii, 132) aeth i'r Queen's College yn Rhydychen, fis Mawrth 1740/1, ond ni raddiodd. Eisoes (1740) yr oedd wedi ymaelodi yn Lincoln's Inn, ond symudodd i'r Inner Temple yn 1746, a galwyd ef i'r Bar yn 1747. Tyfodd yn ddadleuydd o fri mawr yn llys y Siawnsri. Yn 1770 penodwyd ef yn ddirprwy-siambrlen Caerlleon Fawr (**Williams, Welsh Judges**, 77), ac yn 1776 dyrchafwyd ef i fainc y Trysorlys, a'i urddo'n farchog. Ymddeolodd yn 1799, a bu farw 2 Ionawr 1803. Y mae ysgrif arno yn y *D.N.B.*

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). PERRYN, Syr RICHARD (1723 - 1803), barnwr. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PERR-RIC-1723>

QIPPRRUR

Prefatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION





Wladfa
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government